


## O e d f a o n

**Mai 25, 2025**
Oedfa'r Urdd yn Abaty Margam.
am 11:30yb.

**Mehefin 1, 2025**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweiniodg

**Mehefin 8, 2025**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweiniodg

## Gofalaeth Glannau Ogwr

glannauogwr.cymru

**Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr**
4 Derwen Rd, Penybont, CF31 1LH

**Tabernacl, Porthcawl**
18 Fenton Place, Porthcawl, CF36 3DW

**Gweinidog**
Parchg Dylan Rhys Parry
4 Heol Cambell, Coity, CF35 6GP
Symudol: 07535904599
Ebost: dylan89rhys@gmail.com

Gofalaeth Glannau Ogwr
Papur Wythnosol Gofalaeth Glannau Ogwr

# KOINONIA

Rhifyn 122 Mai 18, 2025

## Neges Heddwch ac Wythnos Cymorth Cristnogol



Does dim syndod bod thema Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd yn cydfynd ag wythnos Cymorth Cristnogol sef Tlodi gan fod yr Urdd ers canrif a mwy wedi galw am gyfiawnder i'r rhai sydd ar y cyrion.

Gyda'r argyfwng tlodi plant presennol i'w weld yng Nghymru ac ar draws y byd, mae'r Urdd a phobl ifanc Cymru wedi dewis canolbwyntio ar y mater hollbwysig hwn. Gydag un ym mhob tri o blant a phobl ifanc Cymru yn byw mewn tlodi, mae Neges Heddwch 2025 yn datgan yn glir yr angen am newid.

Dywed gwefan yr Urdd: "Daw newid a gweithred o'r gymuned yn gyntaf drwy roi llais i bawb. Galwn ar y bobl sydd mewn pŵer ar draws y byd i feddwl ac ystyried cenedlaethau'r dyfodol."

A hithau'n dod i ddiwedd wythnos Cymorth Cristnogol, rydym wedi cael dod i wybod am hanes Eleni, canolbwyntiodd Wythnos Cymorth Cristnogol ar gefnogi cymunedau yn Guatemala, yn enwedig ffermwyr brodorol fel Aurelia, sy'n wynebu heriau newid hinsawdd ac amaethyddiaeth ddiwydiannol. Trwy hyfforddiant ac arferion ffermio cynaliadwy a ddarperir gan bartneriaid Cymorth Cristnogol, mae'r cymunedau hyn yn gweithio i feithrin gwytnwch a sicrhau eu dyfodol.

Mae galwad Cristnogol arnom i garu cyd-ddyn ac onid yw'r emyn yma gan W Rhys Nicholas yn ein hanog.

**Dysg imi garu cyd-ddyn
heb gadw dim yn ôl,
heb ildio i amheuon
nac unrhyw ysbryd ffôl;
wrth imi gofio eraill
rho im ewyllys dda
a chalon fydd yn eirias
dros bopeth a'u llesâ.**

RHWYDWAITH MERCHED

Byddem fel gofalaeth yn casglu at ymgyrch Rhwydwaith Merched eleni sef Glandeg. Bydd bocs yn y cyntedd am y flwyddyn. Mae croeso i chi gyfrannu fel y dymunwch yn ystod y flwyddyn. Bydd rhestr llawn o nwyddau sydd ei hangen yn y cyntedd yn ogystal.






Diolch i bawb sydd wedi cefnogi digwyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol yn ystod yr wythnos gan gynnwys y ddwy oedfa, boreau coffi, cwis a glanhau'r traeth.



